Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru

# Y Mag






Helo a chroeso!
Yn rhifyn yr haf o YMag, edrychwn ar y gwaith gwych sy'n cael ei wneud drwy gydol amgueddfeydd Cymru i wella hygyrchedd ac ennyn diddordeb pobl – o wella mynediad corfforol yn Llanerchaeron, i ddatblygu gweithgareddau cynhwysol ar gyfer cynulleidfaoedd LGBTQIA ac ADY yn Amgueddfa Ceredigion ac Amgueddfa Parc Treftadaeth y Rhondda. Mae rhagor o waith gwych yn cael ei wneud i gynyddu mynediad at gasgliadau celf yn Amgueddfa Castell Cyfarthfa, yn ogystal â'r caffaeliadau celf newydd yn Storiel.

Mae'r prosiectau hyn wedi'u cefnogi gan grantiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a weinyddir gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, megis y Cynllun Grantiau Bach, y Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a'r Grant Caffael.

Mae gan Gymru lawer i'w gynnig, a mwy byth i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd!

## Beth sy'n Newydd


- Llanerchaeron (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)
- Storiel: Caffael Crefftwaith Shani Rhys James a Stephen West
- Ymgysylltu â'r gymuned leol Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy gasgliadau Parc Treftadaeth y Rhondda
- Pocedi o Falchder: Dathlu Creadigrwydd a Chymuned LHDTC+ yn Amgueddfa Ceredigion
- Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa:Prosiect Fframio brasluniau Penry Williams
- Cyflwyniad i Godi Arian
- Cynhadledd Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru 2026

## Llanerchaeron (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Rydym wedi uwchraddio'r mynedfeydd yn Llanerchaeron drwy ddisodli'r rampiau presennol o flaen y Fila a'r
Ystafell Filiards â rampiau symudedd plygadwy newydd ag ymylon cyferbyniol. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno traciau rwber rholio allan a'u gosod ar gerrig cobl neu lwybrau graean dwfn lle bo angen, gan ganiatáu i'r rhai sy'n ddefnyddwyr cadair olwyn, sy'n byw ag anabledd symudedd, neu sy'n rhannol ddall, allu defnyddio'r safle yn haws.

Mae'r prosiect wedi dod â manteision go iawn i Lanerchaeron. Drwy gyflwyno rampiau cryfach, hawdd eu haddasu, a thraciau rwber hawdd eu symud, rydym wedi gwella diogelwch adeiladwaith y Fila, yr Ystafell Filiards, a'r tiroedd cyfagos gan eu gwneud yn haws mynd iddynt a'u mwynhau. Gan fod y rampiau newydd yn gallu cael eu plygu a'u symud yn ôl y gofyn, mae'n golygu bod cyn lleied â phosibl o effaith ar olwg y lleoliad Sioraidd hwn, a lleihau traul ar arwynebau hanesyddol.
Mae gwell mynediad hefyd yn cryfhau ein rôl fel safle peilot ar gyfer Tocyn Mynediad Llesiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan alluogi mwy o grwpiau cymunedol deimlo'n hyderus yn defnyddio Llanerchaeron fel lle ar gyfer lles, cysylltiad ac ymgysylltu diwylliannol.

Daeth sawl gwers i'r amlwg drwy'r prosiect hwn. Roedd ymgynghori ar y dechrau â'r defnyddwyr drwy ein grŵp ffocws cymunedol wedi sicrhau bod yr offer a ddewiswyd yn diwallu anghenion pobl. Gwers arall a ddysgwyd oedd dewis cynnyrch gwydn, hyblyg y gellir eu defnyddio ar draws sawl rhan o'r safle. Y wers bwysicaf oll, oedd bod y prosiect wedi atgyfnerthu bod lleihau rhwystrau i fynediad at dreftadaeth yn gofyn am fuddsoddiad parhaus a meddylgar - gan gyd-fynd â blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a chynhwysiant.



Rampiau y gellir eu haddasu yn Llanerchaeron.

Roeddem wedi gosod dau ramp symudedd plygadwy newydd ag ymylon cyferbyniol amlwg o flaen
Fila Llanerchaeron a'r ystafell filiards i wella mynediad i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd â nam ar eu symudedd neu eu golwg.

Roeddem wedi gosod 10 metr o draciau rwber, lle roedd angen, dros arwynebau coblog a graean dwfn i gael llwybrau mwy diogel a hygyrch i ymwelwyr ac aelodau'r grwpiau lles/ cymunedol sydd ag amrywiaeth o anghenion mynediad. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio'r traciau rwber ar yr arwynebau cymysg yng nghefn y tŷ i gael llwybr cerdded gwell i'r defnyddwyr hyn yn ystod dechrau'r gwanwyn.

Mae prynu'r rampiau newydd a thraciau rholio allan yn Llanerchaeron wedi cryfhau mynediad cynhwysol ar draws y fila a'r adeiladau cysylltiedig, gan sicrhau bod diwylliant yn groesawgar i bawb. Drwy gael gwared ar y rhwystrau ffisegol, mae'r prosiect yn ategu hawliau diwylliannol ac yn galluogi mwy o gyfranogiad, gan amlygu egwyddorion democratiaeth ddiwylliannol. Mae gwell mynediad yn caniatáu i ystod ehangach o ymwelwyr ymgysylltu â threftadaeth Llanerchaeron, ac yn annog dehongli cytbwys a chysylltiad â gorffennol y safle. Mae'r gwelliannau yn cyfrannu at greu lleoedd drwy greu profiad i'r ymwelwyr sy'n fwy croesawgar, sy'n canolbwyntio ar lesiant, i'r gymuned leol ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

Gall plant a phobl ifanc yn awr archwilio mwy o'r ystâd yn ddiogel ac yn hyderus, gan ysbrydoli chwilfrydedd ac ymgysylltu diwylliannol ar draws y cenedlaethau. Drwy alluogi teuluoedd a grwpiau oedran cymysg gael profiad o'r safle gyda'i gilydd, mae'r uwchraddio yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau a rhannu dealltwriaeth ddiwylliannol.

Mae'r rampiau newydd a'r traciau rholio allan yn Llanerchaeron hefyd wedi gwella mynediad diogel ac annibynnol ar draws y fila a'r adeiladau cysylltiedig, gan alluogi mwy o bobl i ymgysylltu â'r safle a chynnal lles unigolion a chymunedau drwy gyfranogiad diwylliannol llawnach. Drwy wneud ardaloedd hanesyddol yn fwy hygyrch, mae'r gwelliannau yn sicrhau y gall mwy o bobl fwynhau'r ystâd hanesyddol a'i defnyddio i ategu dysgu, creadigrwydd a chysylltiad dyfnach â lle.


Llwybr symudadwy yn Llanerchaeron.

Hefyd mae gwella mynediad yn cyfrannu at ofal hirdymor a defnydd cynaliadwy o asedau hanesyddol Llanerchaeron, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn wydn ac yn werthfawr i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

# Storiel: Caffael Crefftwaith Shani Rhys James a Stephen West

Fis Ebrill 2025, cynhaliodd Storiel ei arddangosfa gyntaf drwy'r prosiect CELF – arddangosfa ar y cyd gan Shani Rhys James a Stephen West oedd yn cynnwys gweithiau hanesyddol a fenthycwyd o Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn dilyn nifer o ymweliadau paratoadol, roedd y ddau yn awyddus i greu gwaith newydd fyddai'n cael ei ddangos ochr yn ochr â'u gweithiau hanesyddol. Ymatebodd Shani i'r casgliad o decstilau, ac ymatebodd Stephen i hanes eglwysig yr adeilad. Roedd cronfa gaffael y Ffederasiwn wedi ein galluogi i brynu un gwaith yr un gan y ddau artist i wella ein casgliad yma yn Storiel. Nid yw'r naill artist na'r llall wedi'i gynrychioli yn ein casgliad, ac mae'r ddau yn artistiaid o arwyddocâd cenedlaethol. Dyma fanylion y ddau waith:

Shani Rhys James, Gwisg, 2024, olew ar liain, 160 x 160cm.
Stephen West, Tylluan y Nos, 2025, siarcol ar bapur, 152 x 122cm.

Ein dymuniad oedd caffael gweithiau gan y ddau, cyn gynted ag y gwelsom eu gwaith celf. Hefyd roedd nifer o ymwelwyr yn ogystal â Chyfeillion Storiel yn ein hannog i geisio caffael y ddau waith. Gwnaethom ychydig o waith ymchwil ynghylch pa gyllidwyr allai fod yn bosibl i gaffael y gweithiau. Roedd y caffael yn cyd-fynd â'n Polisi Datblygu Casgliadau sy'n ymrwymo'n benodol i gasglu Celfyddyd Gain yn rhagweithiol "gan artistiaid lleol neu weithiau a gynhyrchwyd yn lleol gan artistiaid rhyngwladol". Hefyd defnyddiwyd yr awgrymiadau yn Arwyddocâd Caffael o fewn y Pecyn Cymorth Asesu Arwyddocâd Casgliadau i sefydlu eu harwyddocâd a pha mor briodol yw eu caffael.

Mae Shani yn ysgrifennu am y gwaith, a'r hyn â'i denodd at y ffrog Oes Victoria yng nghasgliad Storiel;

*"Ffrog benodol yn y casgliad yn Storiel oedd wedi denu fy sylw. Roedd streipiau fertigol ar y ffrog Fictorianaidd hon yn cynnwys pennau bach, yn lle blodau, ar gefndir glas cobalt. Beth oedd hi am y motiff hwn? Rwyf wedi treulio blynyddoedd yn peintio pennau a gwisgoedd o gyfnod fy mhlentyndod o amgylch y theatrau. Roedd y pennau ar y ffrog hon yn symbolaidd i mi o'r holl fenywod oedd wedi gwisgo gwisgoedd cyfyngol dros y canrifoedd, wedi'u cyfyngu a'u rhwystro gan gorsets ac yn llusgo eu sgertiau hir drwy'r mwd, yn methu rhedeg oherwydd pwysau'r haenau o ffabrig.*



Shani Rhys James, Gwisg, 2024, olew ar liain, 160 x 160cm.

*Mae'r menig nitril yn fy mhaentiad yn disodli'r menig cid gorfodol yn Oes Victoria ac mae menig nitril yn cael eu gwisgo yn y stiwdio gan artistiaid a chadwraethwyr. Yn y paentiadau cynharach mae'r menig yn wyn, wedi'u hanfon ataf gan fy nhad oedd yn llawfeddyg yn Awstralia."*

Ac mae Stephen yn ysgrifennu am yr hyn a'i ysbrydolodd i greu 'Tylluan y Nos';
"Wrth feddwl am arddangos yn Storiel ym Mangor, yr hyn wnaeth fy nharo fwyaf oedd meddwl am yr esgob ym mhalas yr esgob, pensaernïaeth yr adeilad a'i ddefnydd gwreiddiol a'r statws, y staff a'r rheolau, y gallai fod angen seibiant ar yr esgob. Felly daeth y ffenestr fwaog Gothig wreiddiol yn fy llun 'Tylluan y Nos' yn fordd o ddianc - porthol rhwng y byd clerigol a'r byd seciwlar."

Nawr bod y taliad am y gweithiau wedi'i brosesu, byddwn yn trefnu i'r gweithiau gael eu danfon atom ni yma yn Storiel. Bydd 'Ffrog' Shani yn cael ei hongian ar unwaith, yn un o'n mannau cylchrediad rhwng orielau'r amgueddfa yn Storiel; cyfosod sy'n crisialu cryfder Storiel o gyfuno casgliadau amgueddfa a rhaglennu artistig.



Stephen West, Tylluan y Nos, 2025, siarcol ar bapur

Bydd angen rholio a storio gwaith Stephen ar bapur nes y gallwn ei arddangos eto - eleni gobeithio, wrth i ni ddathlu 10fed flwyddyn Storiel drwy gydol 2026. Bydd manylion y ddau waith yn cael eu hychwanegu at wefan Art Uk ac at gasgliadau ar-lein Storiel ei hun. Mae gwaith celf Shani yn ymateb i ffrog yng nghasgliad tecstilau'r amgueddfa ac yn chwarae ar themâu cyfyngu, arddangos a hunaniaeth - themâu allai fod yn berthnasol i fenywod yn benodol. Mae'r 'Ffrog' yn defnyddio ysbrydoliaeth o ffrog paisley oes Victoria, ac fel artist adnabyddus yn rhyngwladol, mae Shani wedi'i dehongli o fewn ei naratif a'i hagwedd ryngwladol ei hun. Mae potensial mawr i arddangos y gwaith hwn mewn arddangosfeydd a phrosiectau celf gyfoes yn y dyfodol, yn ogystal â phrosiectau cymdeithasol a diwylliannol sy'n edrych ar wisgoedd yn ein casgliadau, rolau menywod, ac amlygrwydd o fewn y cofnod hanesyddol yn ogystal ag ymagwedd mwy anthropolegol at y modd y mae dillad yn parhau i fod yn bwysig wrth lunio a diffinio hunaniaethau personol i'r byd.

Fel rhan o'n hymchwil i wahanol ffrydiau posibl o ariannu, edrychwyd ar gronfa gaffael ArtFund, yn ogystal â chronfa grant y V&A. Gan ein bod wedi caffael sampler cynnar o Bont Grog y Fenai yn ddiweddar gyda chymorth ariannol y V&A, roeddwn yn ansicr a fyddem yn gymwys am grant arall, ond cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'n hymholiadau a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddem yn gymwys i wneud cais. Wrth baratoi gwybodaeth fanwl ar gyfer cyllid cyfatebol posibl, un o ofynion cynllun grant pwrcasu y V&A oedd cynnal gwerthusiad annibynnol o'r ddau waith. Llwyddom i gael arbenigwr ar fyr rybudd drwy gydweithwyr yn Glynn Vivian oedd yn gallu ymgymryd â'r gwaith yn yr amserlen fer oedd gennym i wneud cais. Roedd rhannu gwybodaeth ymarferol fel hyn drwy bartneriaid eraill CELF yn werthfawr iawn. Bydd yr ymgynghorydd hwn yn arbenigwr gwerthfawr pan fyddwn yn ystyried caffael gweithiau cyfoes eraill ar gyfer ein casgliad yma yn Storiel. Rhan bwysig o'r gwaith oedd sicrhau nad oeddent yn gwybod gwerthoedd y gweithiau celf a drafodwyd gyda'r artistiaid penodol.
Profiad newydd arall i ni oedd negodi prisiau caffael gydag artist – roeddem wedi prynu celf drwy ocsiwn neu am ffi sefydlog fel comisiwn o'r blaen ond roedd negodi yn brofiad diddorol – ceisio cael cydbwysedd rhwng cydnabod gwaith artistiaid a phrisiau arferol a sicrhau'r gwerth gorau am arian i Storiel (a'r pwrs cyhoeddus). Gan eu bod yn weithiau newydd, ac roeddem wedi gweld y gweithiau yn ddiweddar, nid oedd angen adroddiadau cyflwr fel rhan o'r gofynion grant. Roedd hefyd o gymorth bod gennym ddelweddau eglur iawn o'r gweithiau a gomisiynwyd ar gyfer yr arddangosfa, felly unwaith eto, roeddent ar gael i ni wneud cais i'r Ffederasiwn. Hoffem ddiolch i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru am eu cymorth yn y caffael hwn.

# Ymgysylltu â'r gymuned leol Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy gasgliadau Parc Treftadaeth y Rhondda

Roedd y prosiect hwn yn caniatáu i ni ymgysylltu a chydweithio â'r grŵp oedolion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) lleol. Y prif nodau oedd cynyddu eu mynediad a'u dealltwriaeth o'r casgliad, a grymuso'r grŵp i deimlo eu bod yn cael eu cynrychioli fwyfwy yn yr amgueddfa. Cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu a thrin gwrthrychau ar draws Amgueddfa Parc Treftadaeth y Rhondda a Llyfrgell Treorci gydag aelodau o Pobl yn Gyntaf Cwm Taf, sef sefydliad hunan-eiriolaeth ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.

Canlyniad arall oedd o fudd i'r amgueddfa a'r casgliad oedd gweithio gyda Vision Fountain i recordio'r sesiynau ac ychwanegu cynnwys at ein casgliad a'n gorsafoedd arddangos digidol.

Roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar wahanol bynciau sy'n ymwneud â chynnwys yr arddangosfeydd yn yr Amgueddfa: chwaraeon, hanes menywod, ecoleg a bywyd gwyllt, a cherddoriaeth. Anogwyd y cyfranogwyr i drin y gwrthrychau a thrafod eu cyfansoddiad, y deunyddiau, y diben, a'u defnydd a'u gwerth tybiedig. Roedd y sesiynau hyn wedi arwain at drafodaethau dwys, naturiol am y Rhondda yn y gorffennol a'r presennol, gan ganiatáu i ni ymdrin â llu o bynciau am yr ardal leol, a'r newidiadau arwyddocaol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd y dydd heddiw.

Roedd y sesiynau yn annog y grŵp i drafod nid yn unig hanes lleol ond eu lle hwy yn y gymdeithas a'r digwyddiadau cyfoes. Cafwyd trafodaeth ar eu cysylltiadau teuluol â'r diwydiant glo, perfformiad côr eu haelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd 2024, a'u cyfraniad mewn clybiau chwaraeon a rasys lleol. Roedd y prosiect hwn yn caniatáu i'r cyfranogwyr ddeall eu treftadaeth leol a theimlo bod eu straeon hwy wedi'u cynrychioli yn y casgliad.

Roedd y prosiect hwn wedi dysgu sawl gwers i ni, gan gynnwys sut i greu'r amgylchedd mwyaf cyfforddus i weddu i anghenion gwahanol gyfranogwyr, a'r ffordd orau o baratoi awgrymiadau am drafodaeth i gael yr ymgysylltu mwyaf naturiol ac organig. Hefyd roedd y prosiect wedi tynnu sylw at ffyrdd newydd o feddwl o ran testun deunydd esboniadol, drwy ddefnyddio termau ac iaith benodol i fod yn fwy hygyrch a chynhwysol i wahanol gynulleidfaoedd.



Cwm Taf People First cyfranogwyr.



Casgliadau - Roedd y prosiect hwn yn caniatáu i ni wneud y canlynol:

- Cynyddu mynediad y cyhoedd i'r casgliad ac i ymgysylltu â'r deunydd – y grŵp
- Cynyddu ein dealltwriaeth o'r casgliad – sut y gellir neu y dylid ei ddefnyddio
- Gwella gwerth y deunydd esboniadol ar y gwrthrychau a ddefnyddir mewn sesiynau/ trafodaethau
- Tynnu ffotograff / digideiddio eitemau o'r casgliad – i'w defnyddio mewn arddangosfeydd digidol ac archifau ar-lein
- Arweiniodd rhai o'r trafodaethau grŵp at gaffael eitemau i'r casgliad. Llwyddwyd i gael mynediad at yr hanes llafar a recordiwyd o bob sesiwn a hefyd medalau chwaraeon rhai o aelodau'r grŵp.

Defnyddiwr a phrofiad y defnyddiwr - Roedd y prosiect hwn yn caniatáu i ni wneud y canlynol:

- Gweithio'n agos gyda grŵp nad yw'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r amgueddfa na'r casgliad, a chreu perthynas sy'n seiliedig ar gydweithredu a chydweithio, gan gynnig lle ar gyfer cyfleoedd a phrosiectau yn y dyfodol.
- Cynyddu'r ymdeimlad o berchnogaeth ar y casgliad i'r grŵp drwy ganiatáu mwy o fynediad at y casgliad. Rhoddwyd profiad y tu ôl i'r llenni yn yr amgueddfa i'r grŵp a'r cyfle i drin a thrafod pob eitem yn fanwl. Nid oedd mwyafrif y grŵp wedi cael profiad o hyn o'r blaen.
- Drwy greu cynnwys fideo a ffotograffau o'r sesiynau a'u rhannu ar sgriniau arddangosfa ddigidol rhyngweithiol, rydym wedi cynnwys persbectif a naratif newydd i'r casgliad, ac wedi tynnu sylw at y grŵp i ddefnyddwyr a chynulleidfaoedd eraill.



Ffotograffau'r prosiect a chynnwys yr arddangosfa.



# *Pocedi o Falchder*: Dathlu Creadigrwydd a Chymuned LHDTC+ yn Amgueddfa Ceredigion

Drwy weithio mewn partneriaeth ag Aberration, roedd *Pocedi o Falchder*, a ariannwyd gan Ffederasiwn Cymru, yn brosiect creadigol Amgueddfa Ceredigion a ddaeth â chyfranogwyr LHDTQI+ ynghyd i ail-ddychmygu un o draddodiadau diwylliannol Cymru a drysorir fwyaf – yr eisteddfod.

Yn ystod cyfres o dri gweithdy, archwiliodd y cyfranogwyr gasgliad hanesyddol yr amgueddfa o fagiau bach eisteddfod - bagiau gwobrau bach, wedi'u haddurno'n gelfydd yn aml, a ddyfarnwyd i enillwyr cystadlaethau ar un adeg. Dan arweiniad yr artist tecstilau Rose Thorn, creodd y grŵp eu dehongliad cyfoes eu hunain, gan addurno'r bagiau bach hyn â straeon personol, hunaniaeth, a phrofiad cwiar.
Mae'r crefftwaith sydd wedi deillio o'r gweithdy yn amlygu cymysgedd pwerus o dreftadaeth ac unigoliaeth, a ysbrydolwyd gan fywydau'r cyfranogwyr, perthnasoedd, a'r ymdeimlad o berthyn.
Disgrifiodd y cyfranogwyr y prosiect fel un "cyffrous ac ysbrydoledig", gan dynnu sylw at bwysigrwydd cael lle i rannu straeon, cysylltu ar draws y cenedlaethau, a gweld profiadau LHDTQI+ yn cael eu cynrychioli o fewn cyd-destun amgueddfa. Dywedodd un cyfrannwr: *"Arddangosfa yn yr amgueddfa amdanom ni – fyddwn i byth yn fy nyddiau i wedi meddwl y gallai hyn ddigwydd."*

Cafodd y bagiau bach oedd newydd eu creu eu harddangos yn ystod Balchder Aberystwyth 2026 a byddant yn rhan o arddangosfa LHDT+ barhaol pan fydd yr amgueddfa yn ailagor yn 2027. Bydd yr arddangosfa yn rhan o ail-ddehongli arddangosfa'r Amgueddfa yn yr Eisteddfod, sy'n cynnwys adrodd straeon digidol a deunydd archifol sy'n dogfennu presenoldeb LHDT+ yn yr Eisteddfod - o weithredu cynnar i gynhwysiant heddiw.

Mae Amgueddfa Ceredigion yn estyn diolch diffuant i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, partneriaid y prosiect Aberration, Rose Thorn, a'r holl gyfranogwyr fu mor barod i rannu eu creadigrwydd a'u profiad bywyd:
Avi Allen, Jane Hoy, Abid Hussain, Fran Jackson, Simon Robson, Mila Slettebø, Miles Rolf, Elaine Turnbull, a Rose Awen Brindle.



Pyrsiau eisteddfod o gasgliad yr amgueddfa.




Pwrs eisteddfod wedi'i wneud gan gyfranogwr y prosiect.

**Charms, charming, I'm not sure what I'll make**
**as the sea roars outside on Aberystwyth beach,**
**pink triangles, joy, flowers and nature.**

**Thinking about all my old girlfriends**
**and wondering why they're all butch.**

**God I love being queer!**
**To be part of a community,**
**a family I was not born from but born into,**
**like living in Wales.**

**I'm excited to see the experience of people like me**
**reflected and preserved in a museum.**

**I produce the work I like**
**when people are not curating me**
**subconsciously.**

**Culture and art preserve the Welsh language**
**and queer people are active in that.**

**I've been thinking about fabric and thread**
**in human history –**
**how we're connected and**
**how much effort it takes to create**
**just a little piece of fabric**
**and we need community to do that.**

**The original purses were created**
**in the community of the chapel,**
**the sea roars outside and**
**this will ripple out,**
**it will ripple through the queer chapel.**

**Exciting and inspiring, lots to think about.**
**What shaped me inside and out.**
**My heritage. Wow.**

**The variety of stories and starting points.**
**Chats about life stories and perspectives.**
**Amazing. Making, making, together making.**
**Love, art, and powerful, sensitive sharing.**

I've got to know you all through the making,
the way that you make, your ideas, the layers.
The inside of your pockets – how do you exhibit
the *inside* of what you're creating?

We were given four examples,
fairly similar in design,
yet none of these are similar
and the differentiating factors
are ourselves and our lives.

All that difference is just
ourselves in the purses,
which is very cool.

Hearing your stories,
having the space to talk whilst working,
where giving doesn't deplete me,
and everybody's purse has embodied
something so personal and generous.

Activism has become a vibrant living word again
and this feels like activism.
A display in the museum about us lot –
Pride Purses – never in my day
would I have thought this could happen.

With the challenges going on in the world,
it's a meaningful statement,
when things are being taken away and away,
we're going to put something up!

We've heard the breadth of people's life stories
across different generations and backgrounds.



Pocedi o Falchder cyfranogwyr y prosiect.

# Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa:Prosiect Fframio brasluniau Penry Williams

Mae fframio mwy na hanner cant o frasluniau Penry Williams a Vosper yn ddiweddar wedi dod â manteision diwylliannol, addysgol yn ogystal â chyfoethogi profiad yr ymwelwyr i Gastell Cyfarthfa. Drwy osod y darnau hyn mewn ffrâm a'u diogelu yn broffesiynol, bydd y Castell bellach yn gallu arddangos darnau pwysig o dreftadaeth artistig Cymru oedd gynt o'r golwg neu mewn perygl o ddirywio oherwydd diffyg lle addas i'w storio a'u cadw mewn storfeydd oddi ar y safle. Bellach gall ymwelwyr gael y profiad o weld y casgliadau wedi'u fframio, a chael cipolwg dyfnach ar dechneg, hanes lleol, a'r straeon cymdeithasol a grisialwyd gan y ddau artist.

Mae'r rhaglen o dri gweithdy dan arweiniad artistiaid a drefnwyd i'w cynnal fis Mai yn hwb eto fyth i ymgysylltu ac ennyn diddordeb yn y gweithiau. Bydd cyfranogwyr yn gallu astudio'r brasluniau yn agos, a'u hysbrydoli yn greadigol wrth ddatblygu sgiliau braslunio yn seiliedig yn uniongyrchol ar weithiau Williams a Vosper. I ategu'r gweithdai hyn, bydd deg o frasluniau sydd newydd eu gwarchod hefyd yn cael eu harddangos, gyda'r bwriad o gynnig arddangosfa llyfr brasluniau mwy o faint ar ôl i'r brasluniau hanfodol gael eu cwblhau a'u cynnwys yn y rhaglen o arddangosfeydd. Bydd hyn yn ein galluogi i ehangu'r casgliad sydd ar gael i'r cyhoedd a chynnig deunydd newydd i ymwelwyr sy'n dychwelyd.

Gan gydnabod gwerth y gweithiau celf hyn i ddysgwyr ifanc, mae'r Castell hefyd wedi cynhyrchu chwe atgynhyrchiad o ansawdd uchel o ddarnau allweddol wedi'u fframio yn benodol i'w defnyddio mewn ysgolion. Bydd y gweithiau hyn yn cael eu hychwanegu at ein gweithdy "Celf mewn bocs". Mae'r copïau gwydn hyn yn caniatáu i ddisgyblion archwilio'r agweddau cyfansoddi, adrodd straeon, a chyd-destun hanesyddol mewn modd ymarferol, heb beryglu difrod i'r gwreiddiol. Mae'r buddsoddiad hwn yn cryfhau allgymorth addysgol y Castell ac yn ategu dysgu celf a threftadaeth sy'n rhan o'r cwricwlwm.

Yn olaf, mae cyflwyno cyfleusterau storio newydd a gwell yn sicrhau cadwraeth hirdymor y casgliad. Mae'r fframio a'r gwydro yn sicrhau diogelu rhag lefelau'r golau, a rhag rhwygo ac ati, a bydd prynu bocsys solander newydd, a mesurau perthnasol o gadwraeth ataliol, yn sicrhau y gallwn ailgartrefu unrhyw ddarnau sydd heb eu fframio, a sicrhau eu gofal hirdymor. Ar hyn o bryd maent mewn bocsys gorlawn. Roedd prynu cas hedfan yn arbennig o ddefnyddiol o ran y posibilrwydd o ymgysylltu ag ysgolion uwchradd neu brifysgolion gyda'r copïau gwreiddiol, gan sicrhau ein bod yn gallu creu sesiynau pwrpasol ar gyfer disgyblion allai fod eisiau dysgu am gynrychiolaeth, LGBTQ neu themâu anabledd. Mae rhoi mynediad gweladwy i ddysgwyr o bob oed, ar y safle ac oddi ar y safle, yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallant weld eu hunain mewn celf ac nad ydynt bellach yn "hanes cudd".



Sgetsys celf Penry Williams a Vosper yn cael eu harddangos.

Mae'r prosiect yn cyd-fynd i raddau helaeth â blaenoriaethau diwylliannol Cymru drwy gynyddu mynediad at dreftadaeth artistig Cymru, cryfhau addysg, a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y casgliadau pwysig.

Mae'r gwaith proffesiynol o fframio mwy na hanner cant o frasluniau Penry Williams a Vosper wedi golygu bod gweithiau oedd gynt yn anhygyrch neu mewn perygl oherwydd gorlethu'r storio wedi'u trawsnewid yn asedau diwylliannol y gall y cyhoedd eu gweld.

Mae hyn yn ategu cynhwysiant ac yn cyfrannu at ddehongli hanes lleol a hanesion cymdeithasol yn gytbwys, gan gyfoethogi creu lleoedd a lles cymunedol drwy gynnig gwell profiad i ymwelwyr.
Bydd y gyfres o weithdai dan arweiniad artistiaid fis Mai yn meithrin ymgysylltu creadigol a dysgu a ysbrydolir yn uniongyrchol gan y gweithiau sydd newydd eu fframio. Drwy ganiatáu i gyfranogwyr astudio'r brasluniau yn agos, a datblygu sgiliau lluniadu ymarferol, mae'r rhaglen yn cyfrannu at lesiant unigolion ac yn cefnogi dyheadau pobl ifanc drwy ymgorffori creadigrwydd a dysgu diwylliannol yn eu profiad. Mae arddangosfa o ddeg gwaith sydd newydd eu cadw, a chynlluniau i gynnal arddangosfa llyfr brasluniau estynedig, yn golygu y gall mwy o aelodau'r cyhoedd gael gweld y casgliad.

Mae allgymorth addysgol yn cael ei gryfhau drwy gyfrwng y chwe atgynhyrchiad o ansawdd uchel a grëwyd yn benodol ar gyfer ysgolion a'u hintegreiddio i'r gweithdy "Celf mewn Bocs". Mae'r adnoddau gwydn hyn yn caniatáu i ddisgyblion archwilio cyfansoddi, adrodd straeon, hunaniaeth a hanes lleol heb risg i'r deunydd gwreiddiol, gan sicrhau bod cyfranogiad diwylliannol yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amlygu amrywiol brofiadau.

Mae'r buddsoddiad mewn bocsys solander newydd, gwell llefydd storio, a chas hedfan arbenigol yn sicrhau cadwraeth hirdymor y casgliad ac yn dangos dull strategol o ofalu am gasgliadau a'u harwyddocâd. Mae'r gallu i gludo gweithiau gwreiddiol yn ddiogel ar gyfer sesiynau gydag ysgolion uwchradd a phrifysgolion yn ategu ymgysylltu â themâu megis cynrychiolaeth, hanes LGBTQ, ac anabledd, gan sicrhau bod treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn cael ei rhannu, ei harchwilio, a'i gwneud yn weladwy i genedlaethau'r dyfodol.



Sgetsys celf Penry Williams a Vosper yn cael eu harddangos.

# Cyflwyniad i Godi Arian

Cyflwyniad i godi arian

When: Mawrth 3, ac Mawrth 10 Tachwedd, 4-6pm

What: Yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio yn y sector amgueddfeydd sydd ag ychydig neu ddim profiad codi arian sydd yn awyddus i ddysgu sut i wella codi arian yn eu hamgueddfa.

Wedi'u cynnal gan arbenigwr codi arian a sylfaenydd Development Partners, Judy Niner, bydd y sesiynau'n rhyngweithiol, gan roi cyfle i chi rwydweithio ag eraill mewn sefyllfa debyg a dysgu oddi wrthynt. Judy yw awdur Canllaw Llwyddiant Codi Arian AIM.

Rydym yn gallu cynnig lleoedd am ddim i'r rhai sy'n gweithio mewn amgueddfeydd yng Nghymru diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Where: Bydd y ddwy sesiwn yn rhedeg rhwng 4-6pm a byddant yn cael eu cynnal ar Zoom.

I archebu eich lle, anfonwch e-bost at Christine Andrews, Swyddog Rhaglenni a Digwyddiadau yn christine.andrews@aim-museums.co.uk

Association of Independent Museums

Helping Heritage Organisations Prosper

# Cynhadledd Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru 2026

Mae Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru wrth ei fodd yn cyhoeddi ail gynhadledd 2026. Bydd hon yn digwydd yn yr wythnos sy'n dechrau 19 Hydref.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y bydd y dyddiad a'r lleoliad yn cael eu cadarnhau'n fuan.

**Beth allwch chi ei ddisgwyl gan gynhadledd Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru?**
Ym mis Mawrth 2026, cynhaliodd Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru ei gynhadledd yn Storiel, Bangor.

Gwelodd y diwrnod grŵp gwych o weithwyr proffesiynol y sector yn trafod y thema 'Maniffesto ar gyfer Amgueddfeydd: Diogelu Ein Dyfodol'.

Myfyriodd Jacob Dafydd Ellis, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Diwylliant yng Nghomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ar y rôl y mae diwylliant wedi'i chwarae—a rhaid iddo barhau i'w chwarae—wrth sicrhau lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Archwiliodd Ellis beth sy'n dod nesaf: potensial Bil Diwylliant i ymgorffori meddwl hirdymor mewn polisi a gwneud penderfyniadau diwylliannol. Yn ganolog i hyn mae'r achos mai dim ond trwy gydweithio dyfnach, arweinyddiaeth a rennir, ac ymgysylltu parhaus â'r rhai sy'n llunio diwylliant ledled Cymru y gellir cyflawni lles diwylliannol.

Trafododd Frank Olding, cyn-guradur Amgueddfa'r Fenni, ac aelod presennol o Orsedd y Beirdd, 'iaith a pherthyn (Cynefin ac Perthyn)'; cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'r iaith Gymraeg. Archwiliodd ei sesiwn pam mae darpariaeth iaith Gymraeg yn wleidyddol yn ogystal â phersonol a pham y dylai amgueddfeydd ymgysylltu â'r iaith lle bynnag y maent wedi'u lleoli.

Rhoddodd Grace Todd, Uwch guradur Hanes Llafar yn Amgueddfa Cymru, sesiwn ar dreftadaeth ddiwylliannol anniriaethol a mapio traddodiadau byw. Llofnododd y DU Gonfensiwn UNESCO 2003 ar gyfer Diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol yn 2024. Nod y cytundeb rhyngwladol yw cefnogi a hyrwyddo 'Treftadaeth Fyw' ledled y byd. Trafododd Grace y gwaith hwn dan arweiniad y gymuned, a hwyluswyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a rhwydwaith o ganolfannau cymunedol, a'r cyfle pwysig hwn i ddechrau sgwrs yma yng Nghymru am ein treftadaeth ddiwylliannol.




Storiel, Bangor

Trafoddodd Ruth McKew, cyfarwyddwr yn Headland Design, 'Cydnabod' - cynllun peilot sy'n dathlu casgliadau arwyddocaol yn genedlaethol (ac yn rhyngwladol) mewn amgueddfeydd rhanbarthol yng Nghymru. Gwahoddwyd amgueddfeydd i gymryd rhan ac mae 16 wedi mynd ymlaen trwy broses ddwy gam. Roedd y broses yn cynnwys gwirio allanol gan arbenigwyr, academyddion a thrwy gydweithio cymunedol.

Trafododd Emma Chaplin ac Esther Roberts arolwg Amgueddfeydd Goleuni 2025, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, a thynnu sylw at y prif ganfyddiadau a chyfeirio at sut y gall amgueddfeydd ddefnyddio'r data i gefnogi eu gwaith eu hunain.

Trafododd Sophie Edwards a John Robert o Heneb (Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru) eu prosiect peilot ar ran Llywodraeth Cymru a asesodd gasgliadau archaeoleg pum Amgueddfa Cymru, gan ystyried eu maint, hygyrchedd, cyflwr, gwerth, potensial ymchwil ac arddangos a gofynion cadwraeth a chwilio am gyfleoedd lle gellir mireinio/dad-fynd/ailddefnyddio neu daflu deunydd.

Diolch i'n holl siaradwyr ac i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus.




Cyfranogwyr Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, Mawrth 2026.

Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru | Museums Federation Cymru